

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb eu cadarnhau

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 19 Awst 2021 am 3pm drwy Zoom

Yn bresennol:

Emma Woollett	Cadeirydd
Mark Hackett	Prif Weithredwr
Steve Spill	Is-gadeirydd
Andrew Jarrett	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd
Christine Williams	Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Jackie Davies	Aelod Annibynnol
Keith Lloyd	Aelod Annibynnol
Maggie Berry	Aelod Annibynnol
Nuria Zolle	Aelod Annibynnol
Reena Owen	Aelod Annibynnol
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Siân Harrop-Griffiths	Cyfarwyddwr Strategaeth
Tom Crick	Aelod Annibynnol

Yn bresennol hefyd:

Alison Clarke	Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Therapiau a Gwyddor Iechyd
Matt John	Cyfarwyddwr Digidol
Mwoyo Makuto	Cyngor Iechyd Cymuned
Nick Samuels	Cyfarwyddwr Cyfathrebu Dros Dro
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Rab McEwan	Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
Sue Evans	Cyngor Iechyd Cymuned
Liz Stauber	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol

Rhif Cofnod		Cam Gweithredu
204/21	CROESO A CHYFLWYNIADAU	
	Croesawodd Emma Woollett bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Debbie Eyitayo sydd wedi ymuno â'r bwrdd iechyd fel Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Nododd hefyd mai hwn oedd cyfarfod olaf y Bwrdd i Rab McEwan, gan ychwanegu ei fod wedi gwneud cyfraniad sylweddol fel Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro.	

	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan Christine Morrell, y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Therapiau a Gwyddor Iechyd, Darren Griffiths, y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, Keith Reid, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a Martyn Waygood, Aelod Annibynnol.	
205/21	DATGAN BUDDIANNAU	
	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.	
206/21	MATERION YN CODI	
	Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddent fel arall ar yr agenda.	
207/21	DERBYN DIWEDDARIAD AM ADOLYGIAD TAVI	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi'r diweddaraf am adolygiad Coleg Brenhinol y Meddygon o'r gwasanaeth TAVI (Mewnblaniad Falf Aorta drwy Gathetr). Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Richard Evans sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yr adolygiad gan y Coleg Brenhinol yn cynnwys tair elfen - adolygiad o nodiadau achos ar gyfer y cleifion a fu farw tra oeddent ar y rhestr aros, ymweliad â'r safle, ac adolygiad o nodiadau achos ar gyfer y rhestr a oedd yn dyddio'n ôl i ddechrau'r gwasanaeth yn 2019; - Roedd yr adroddiadau ar gyfer y tair elfen bellach wedi'u derbyn; - Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda Thîm Profiad y Claf mewn perthynas â gwneud iawn ac achosion; - Trafodwyd pob achos gyda'r grŵp marwolaethau ac afiachedd, ac roedd pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol yn bresennol; - Er bod heriau o hyd o ran y rhestr aros, oherwydd yr amseroedd aros ar gyfer y gwahanol elfennau a'r potensial i gleifion gael eu cyfeirio i'r gwasanaeth yn hwyr ar y llwybr, cafwyd bellach reolaeth gadarn ac arweinyddiaeth glinigol gref.	

- Nod y gwasanaeth oedd trin cleifion cyn pen 18 wythnos ar ôl eu cyfeirio am TAVI; mae data ar gyfer Gorffennaf 2021 yn dangos cyflawniad o 96%;
- Nid oedd unrhyw gleifion wedi marw tra oeddent ar y rhestr aros ers mis Mai 2019;
- Gellid cael sicrwydd bod y tîm wedi gwneud cynnydd sylweddol i wella'r gwasanaeth, o ran llywodraethu a darpariaeth, ac roedd dangosfwrdd ansawdd yn ei le er mwyn monitro'r cynnydd;
- Wrth symud ymlaen, cynigiwyd y dylid darparu diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli trwy'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch.

Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:

Cyfeiriodd Reena Owen at adroddiad blaenorol gan y Bwrdd a oedd wedi codi'r posibilrwydd y byddai comisiynydd y gwasanaeth, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), yn lleihau amser y rhestr aros i 18 wythnos. Gofynnodd a oedd hyn yn dal yn fwiad. Ymatebodd Richard Evans fod yr amser aros a gomisiynwyd yn parhau'n 36 wythnos ond bod uchelgais i greu llwybr stenosis aortig, a fyddai'n cynnwys TAVI, ac i hyn gael rhestr aros o 12 wythnos (sy'n uwch na safon y DU o 18 wythnos). Yr uchelgais gyfredol ar gyfer TAVI o fewn y bwrdd iechyd yw cael rhestr aros o 18 wythnos.

Dywedodd Steve Spill fod y Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch wedi adrodd i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'i fod yntau'n cwrdd yn rheolaidd â chadeirydd y pwyllgor. Ar y sail honno, roedd yn sicr y byddai digon o graffu ar y sefyllfa ac y gallai unrhyw faterion gael eu trosglwyddo i'r Bwrdd fel mater o eithriad.

Gofynnodd Emma Woollett a oedd yr adnoddau'n ddigonol i reoli'r cynnydd yn y niferoedd sydd angen TAVI. Dywedodd Richard Evans eu bod yn ddigonol ond bod y Bwrdd Iechyd yn cadw llygad agos ar hyn er mwyn nodi materion yn gynnar.

Dywedodd Emma Woollett fod y sefyllfa hon, sef fod TAVI bellach yn gallu cael ei fonitro trwy'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch, yn foment arloesol ac yn dyst i waith Richard Evans.

Dywedodd Mark Hackett fod adolygiad o ymchwil a data mewn perthynas â'r gwasanaethau cardiaidd wrthi'n cael ei gynnal yn fewnol, ac y byddai adroddiad llawn a chynllun i wella ei gyflawniadau'n cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Penderfyniad:	- Dylid cymeradwyo bod adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu derbyn bob chwe mis trwy'r Bwrdd Rheoli, a hynny trwy'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch, gan ddarparu tystiolaeth ei fod wedi adolygu ei berfformiad yn erbyn safonau ansawdd a chanlyniadau cenedlaethol.	
208/21	CYNIGION AR GYFER THEATRAU YCHWANEGOL YN YSBYTY CASTELL-NEDD PORT TALBOT	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi cynigion ar gyfer theatrau ychwanegol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Rab McEwan sylw at y pwyntiau canlynol: - Gwnaed gwaith i gaffael cynlluniau i adeiladu pedair theatr fodwlar yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o achosion dewisol a'r galw am wasanaethau orthopedig yn y dyfodol; - Byddai'r cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn cael arian ar gyfer hyn. Os bydd y cyfleusterau'n cael eu cymeradwyo, dylent fod yn eu lle erbyn chwarter un/chwarter dau 2022-23; - Rhagwelwyd y gellid ymdrin â thua 4,500 o achosion trwy'r theatrau ychwanegol, yn cynnwys 24 rhestr a fyddai'n cael eu trosglwyddo o Ysbyty Treforys a 64 o rai newydd; - Roedd yn rhaid aros am gyfnod hir am wasanaethau diagnostig ac amcangyfrifwyd y byddai'r achosion hyn yn golygu cynnydd o 45% mewn achosion dewisol; - Roedd dau senario cyllido posibl i Lywodraeth Cymru eu hystyried – byddai Llywodraeth Cymru naill ai'n ariannu'r gwaith galluogi neu'n darparu cyfalaf ar gyfer y gwaith galluogi a'r offer. Ar gyfer y naill gynllun neu'r llall, byddai'r bwrdd iechyd yn prydlesu'r gweddill; - Byddai costau rhedeg y theatrau'n £18.9m bob tro, yn dilyn cost gychwynnol o £21m yn 2022-23; - Byddai angen recriwtio 177 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn a byddai angen i hyn gychwyn yn fuan ac ar gyflymder i sicrhau bod staff yn eu lle. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Emma Woollett fod yr hyn sydd ei angen o ran y gweithlu'n sylweddol, er gwaethaf y ffaith y byddai rhai o'r rhestrau	

	ychwanegol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn cael eu trosglwyddo o Ysbyty Treforys. Nododd lefel y gwariant rheolaidd, gan ychwanegu na fyddai'r bwrdd iechyd yn gallu fforddio cynyddu'r capasiti ar gyfer triniaethau dewisol heb gefnogaeth allanol. Holodd Nuria Zolle a oedd hyder y byddai'r bwrdd iechyd yn gallu recriwtio'r lefelau staff sy'n ofynnol. Ymatebodd Mark Hackett fod gwaith eisoes yn digwydd gyda staff y theatrau i benderfynu beth oedd ei angen ac y byddai'n cymryd tua blwyddyn i gyrraedd y lefel ofynnol trwy staff parhaol, staff banc a staff asiantaeth. Byddai'r swyddi'n ddeniadol i staff, gan fod yr uned yn annibynnol, gan olygu na fyddai argyfyngau'n tarfu ar restrau ac y gallai staff gyflawni eu rolau yn ôl y disgwyl. Roedd ystod o rolau'n cael eu hystyried yn ychwanegol at rolau nyrsys, fel ymarferwyr theatrau. Ychwanegodd fod mwyafrif y cleifion ar y rhestrau orthopedig yn gleifion oedrannus a bregus a oedd yn aros am gymalau newydd, a'i bod yn bwysig bod y bwrdd iechyd yn dod o hyd i ffyrdd o wella'u profiadau. Dywedodd Keith Lloyd y bu menter lwyddiannus rhwng Prifysgol Abertawe ac Ysbyty Singleton i benodi ar y cyd er mwyn gwneud rolau'n fwy deniadol i ymgeiswyr o ansawdd uwch ar draws ystod o arbenigeddau. Ychwanegodd fod cyfle i wneud hynny eto ar gyfer y rhaglen waith hon. Dywedodd Mark Hackett fod angen trafodaethau pellach rhyngddo ef a'r Cyfarwyddwr Cyllid â Llywodraeth Cymru, ond ar y cyfan, roedd cydweithwyr yn gefnogol i'r hyn a oedd ar y gweill. Byddai lefel y cyllid yn dibynnu ar faint o arian y byddai llywodraeth y DU yn ei ddarparu i Lywodraeth Cymru, a byddai hyn yn llywio union fanylion y cais. I grynhoi, dywedodd Emma Woollett fod y Bwrdd yn gefnogol i'r achos gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan nodi'r hyblygrwydd o ran yr opsiynau, ac y byddai'r union fanylion yn cael eu rhannu maes o law. Ychwanegodd fod hwn yn benderfyniad pwysig i'r sefydliad oherwydd y materion perfformio a oedd yn bodoli ers amser mewn perthynas â gofal wedi'i gynllunio. Nododd hefyd fod y cyngor iechyd cymuned yn parhau i godi pryderon am yr amser aros hir i gleifion orthopedig a bod y mater hwn yn bwnc a godai mewn llawer o lythyrau cwyno. Roedd mynd i'r afael â'r amseroedd aros hyn yn flaenoriaeth bwysig i'r Bwrdd.	
Penderfyniad:	- Dylid nodi 'r adroddiad;	

	- Dylid cymeradwyo cyflwyno achos i Lywodraeth Cymru ynghylch sefydlu theatrau ychwanegol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.	
209/21	UNRHYW FATER ARALL	
	(i) <u>Gwasanaethau Iechyd Meddwl Acíwt ar gyfer Oedolion</u> Hysbysodd Siân Harrop-Griffiths y Bwrdd fod y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cymeradwyo'r achos amlinellol strategol ar gyfer disodli gwasanaethau iechyd meddwl aciwt ar gyfer y ddwy ward yn Ysbyty Cefn Coed nad oeddent bellach yn addas at y diben. Byddai gwaith nawr yn cychwyn ar yr achosion busnes amlinellol a llawn.	
	Nid oedd unrhyw faterion pellach a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.	
210/21	DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF	
	Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 7 Hydref 2021.	